OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

WELSH STATUTORY INSTRUMENTS

2011 Rhif 675 (Cy.98)

2011 No. 675 (W.98)

PLANT A PHOBL IFANC, CYMRU

CHILDREN AND YOUNG PERSONS, WALES

Rheoliadau'r Strategaeth Tlodi Plant (Cymru) 2011

The Child Poverty Strategy (Wales) Regulations 2011

NODYN ESBONIADOL

(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)

Daw'r Rheoliadau hyn i rym ar 6 Ebrill 2011 ac maent yn gymwys yng Nghymru.

Mae adran 2 o Fesur Plant a Theuluoedd (Cymru) 2010 yn gosod dyletswyddau ar awdurdodau Cymreig i baratoi a chyhoeddi strategaeth ar gyfer cyfrannu at ddileu tlodi plant yng Nghymru. Yn y Rheoliadau hyn, mae Gweinidogion Cymru ac awdurdodau lleol wedi eu heithrio o'r diffiniad o awdurdodau Cymreig.

Mae rheoliad 3 yn darparu ar gyfer cyfnod y strategaeth tlodi plant gyntaf a'r strategaethau tlodi plant sy'n dilyn.

Mae rheoliad 4 yn darparu ar gyfer amser cyhoeddi'r strategaethau tlodi plant.

Mae rheoliad 5 yn darparu ar gyfer y dull y mae'n rhaid i awdurdod Cymreig gyhoeddi strategaeth tlodi plant.

Mae rheoliad 6 yn darparu ar gyfer y dyddiadau pan fydd rhaid cwblhau adolygiad o strategaeth tlodi plant a gyhoeddir gan awdurdod Cymreig. Mae rheoliad 6 hefyd yn darparu bod rhaid i awdurdod Cymreig gyhoeddi adroddiad o'r adolygiad a rhaid arddangos yr adroddiad o'r adolygiad ar wefan yr awdurdod Cymreig.

Mae rheoliad 7 yn darparu i awdurdod Cymreig gynnal ymgynghoriad cyn i strategaeth tlodi plant gael ei chyhoeddi.

EXPLANATORY NOTE

(This note is not part of the Regulations)

These Regulations come into force on 6 April 2011 and apply in Wales.

Section 2 of the Children and Families (Wales) Measure 2010 imposes duties on Welsh authorities to prepare and publish a strategy for contributing to the eradication of child poverty in Wales. In these Regulations the Welsh Ministers and local authorities are excluded from the definition of Welsh authorities.

Regulation 3 provides for the duration of the first and subsequent child poverty strategies.

Regulation 4 provides for the timing of the publication of the child poverty strategies.

Regulation 5 provides for the manner in which a Welsh authority must publish a child poverty strategy.

Regulation 6 provides the dates upon which a review of a child poverty strategy published by a Welsh authority must be completed. Regulation 6 also provides that a Welsh authority must publish a review report and the review report is to be displayed on the website of the Welsh authority.

Regulation 7 provides for the Welsh authority to conduct a consultation prior to the child poverty strategy being published.

OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

2011 Rhif 675 (Cy.98)

PLANT A PHOBL IFANC, CYMRU

Rheoliadau'r Strategaeth Tlodi Plant (Cymru) 2011

Gwnaed	*7 Mawrth 2011*
Gosodwyd gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru	*9 Mawrth 2011*
Yn dod i rym	*6 Ebrill 2011*

Mae Gweinidogion Cymru, drwy arfer y pwerau a roddwyd iddynt gan adran 5 o Fesur Plant a Theuluoedd (Cymru) 2010(**1**), yn gwneud y Rheoliadau canlynol–

Enwi, cymhwyso a chychwyn

1.–(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau'r Strategaeth Tlodi Plant (Cymru) 2011.

(2) Daw'r Rheoliadau hyn i rym ar 6 Ebrill 2011.

(3) Mae'r Rheoliadau hyn yn gymwys o ran Cymru.

Dehongli

2. Yn y Rheoliadau hyn–

(a) nid yw "yr awdurdodau Cymreig" ("*the Welsh authorities*") yn cynnwys Gweinidogion Cymru nac awdurdod lleol at ddibenion y Rheoliadau hyn;

(b) ystyr "strategaeth tlodi plant" ("*child poverty strategy*") yw strategaeth fel a nodir yn adran 2 o Fesur Plant a Theuluoedd (Cymru) 2010.

Cyfnod y strategaeth tlodi plant gyntaf a'r strategaethau tlodi plant sy'n dilyn

3.–(1) Rhaid i'r strategaeth tlodi plant gyntaf fod mewn perthynas â'r cyfnod o 1 Ebrill 2012 i 31 Mawrth 2014.

(**1**) 2010 mccc 1.

WELSH STATUTORY INSTRUMENTS

2011 No. 675 (W.98)

CHILDREN AND YOUNG PERSONS, WALES

The Child Poverty Strategy (Wales) Regulations 2011

Made	*7 March 2011*
Laid before the National Assembly for Wales	*9 March 2011*
Coming into force	*6 April 2011*

The Welsh Ministers, in exercise of the powers conferred on them by section 5 of the Children and Families (Wales) Measure 2010(**1**), make the following Regulations–

Title, application and commencement

1.–(1) The title of these Regulations is The Child Poverty Strategy (Wales) Regulations 2011.

(2) These Regulations come into force on 6 April 2011.

(3) These Regulations apply in relation to Wales.

Interpretation

2. In these Regulations–

(a) "child poverty strategy" ("*strategaeth tlodi plant*") means a strategy as set out in section 2 of the Children and Families (Wales) Measure 2010;

(b) "the Welsh authorities" ("*yr awdurdodau Cymreig*") for the purposes of these Regulations does not include the Welsh Ministers or a local authority.

Duration of the first and subsequent child poverty strategies

3.–(1) The first child poverty strategy must relate to the period from 1 April 2012 to 31 March 2014.

(**1**) 2010 nawm 1.

(2) Rhaid i'r strategaethau sy'n dilyn fod mewn perthynas â'r cyfnod o dair blynedd sy'n dechrau ar 1 Ebrill yn y flwyddyn pan fo cyfnod y strategaeth flaenorol yn dod i ben.

Amseriad cyhoeddi'r strategaeth tlodi plant gyntaf a'r strategaethau tlodi plant sy'n dilyn

4.–(1) Mae'r strategaeth tlodi plant gyntaf i gael ei chyhoeddi ar 31 Mawrth 2012 neu cyn hynny.

(2) Rhaid i'r strategaethau sy'n dilyn gael eu cyhoeddi ar 1 Ebrill, neu cyn hynny, yn y flwyddyn pan fo cyfnod y strategaeth ar gyfer y strategaeth honno'n cychwyn yn unol â rheoliad 3(2).

Dull cyhoeddi strategaeth tlodi plant

5.–(1) Rhaid i awdurdod Cymreig gyhoeddi strategaeth drwy ei rhoi ar ei wefan ar y dyddiad y cyhoeddir y strategaeth.

(2) Rhaid i awdurdod Cymreig hefyd drefnu bod y strategaeth ar gael i'w harchwilio gan aelodau o'r cyhoedd–

(i) yn swyddfeydd yr awdurdod; a

(ii) mewn unrhyw fan priodol arall.

Adolygiad o'r strategaeth tlodi plant

6.–(1) Rhaid cwblhau adolygiad o'r strategaeth gyntaf a ymgymerir gan awdurdod Cymreig erbyn 31 Mawrth 2014.

(2) Mae pob strategaeth sy'n dilyn i'w hadolygu bob 3 blynedd wedi hyn.

(3) Rhaid i'r awdurdod Cymreig gyhoeddi adroddiad o'r adolygiad drwy ei roi ar ei wefan.

Gofynion ymgynghori

7. Rhaid i awdurdod Cymreig, cyn cyhoeddi strategaeth, ymgynghori â Gweinidogion Cymru, awdurdodau lleol a phersonau eraill sydd, yn nhyb yr awdurdod Cymreig, yn briodol.

(2) Subsequent strategies must relate to the period of three years beginning on 1 April in the year when the previous strategy period expires.

Timing of publication of the first and subsequent child poverty strategy

4.–(1) The first child poverty strategy is to be published on or before 31 March 2012.

(2) Subsequent strategies must be published on or before 1 April in the year in which the strategy period for that strategy commences in accordance with regulation 3(2).

Manner of publication of a child poverty strategy

5.–(1) A Welsh authority must publish a strategy by placing it on its website on the date that a strategy is published.

(2) A Welsh authority must also make the strategy available for inspection by members of the public–

(i) at the authority's offices; and

(ii) at any other appropriate place.

Review of the child poverty strategy

6.–(1) A review of the first strategy undertaken by a Welsh authority must be completed by 31 March 2014.

(2) All subsequent strategies are to be reviewed every 3 years thereafter.

(3) The Welsh authority must publish the review report by placing it on its website.

Consultation requirements

7. A Welsh authority, before publishing a strategy, must consult the Welsh Ministers, local authorities and other persons as it considers appropriate.

Huw Lewis

Y Dirprwy Weinidog dros Blant, un o Weinidogion Cymru

7 Mawrth 2011

Deputy Minister for Children, one of the Welsh Ministers

7 March 2011

©Ф Hawlfraint y Goron 2011

Argraffwyd a chyhoeddwyd yn y Deyrnas Unedig gan The Stationery Office Limited o dan awdurdod ac arolygiaeth Carol Tullo, Rheolwr Gwasg Ei Mawrhydi ac Argraffydd Deddfau Seneddol y Frenhines.

© Crown copyright 2011

Printed and Published in the UK by the Stationery Office Limited under the authority and superintendence of Carol Tullo, Controller of Her Majesty's Stationery Office and Queen's Printer of Acts of Parliament.

OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

WELSH STATUTORY INSTRUMENTS

2011 Rhif 675 (Cy.98)

2011 No. 675 (W.98)

PLANT A PHOBL IFANC, CYMRU

CHILDREN AND YOUNG PERSONS, WALES

Rheoliadau'r Strategaeth Tlodi Plant (Cymru) 2011

The Child Poverty Strategy (Wales) Regulations 2011

£4.00

W895/03/11 ON